## Awgrymiadau gwych ar gyfer cael y gorau o'ch cyfarfod ar-lein:

- Gwnewch yn siŵr eich bod mewn lle tawel a phreifat, lle mae'n annhebygol y bydd rhywbeth neu rywun yn tarfu arnoch chi.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn barod ar gyfer y sesiwn trwy wirio bod gennych gysylltiad rhyngrwyd digonol a bod eich dyfais wedi'i gwefru, a bod eich meicroffon, seinyddion/clustffonau a'ch camera yn gweithio. A yw MS Teams yn gweithio ar eich dyfais?;
- Paratowch ar gyfer eich apwyntiad fel petaech yn dod i'n gweld ar y campws; gwisgwch yn briodol, a cheisiwch gael cynllun o'r hyn yr hoffech siarad amdano yn eich cyfarfod;
- Ar adeg eich apwyntiad, ymunwch â'r cyfarfod Teams yn eich calendr neu drwy glicio ar y cyswllt ymuno a anfonwyd atoch trwy e-bost;
- Ceisiwch gael eich camera ymlaen ar ddechrau eich sgwrs; mae hyn yn gwneud agor yr apwyntiad yn fwy cyfeillgar, a gall gweld gyda phwy rydych chi'n siarad a nhw wneud cyfathrebu'n haws. Os yw'n well gennych beidio â gwneud hynny, nid oes angen i chi gael y camera ymlaen ar gyfer yr apwyntiad cyfan.

### Beth os nad yw'n mynd fel y disgwyl yn llwyr?

- Mewn achos annhebygol y bydd oedi cyn i'r Cynghorydd / Tiwtor ymuno â chi, caniatewch 10 munud ac yna e-bostiwch y Gwasanaeth Anabledd (GwasanaethAnabledd@bangor.ac.uk), a byddwn yn darganfod beth yw'r anhawster.
- Ni ellir osgoi colli cysylltiad bob amser;
    - mae'n annhebygol iawn y byddai rhywun yn mynd i mewn i ystafell y Cynghorydd / Tiwtor trwy gamgymeriad, ond pe bai hyn yn digwydd bydd pwy ydych yn cael ei warchod;
    - Os bydd rhywun yn dod i mewn i'ch ystafell, cofiwch naill ai: roi gwybod i'r Cynghorydd / Tiwtor a gofyn i'r person adael cyn parhau, gadael y cyfarfod ar-lein, neu drefnu proses arall gyda'r Cynghorydd / Tiwtor.
    - Os caiff y sesiwn ei chau gan y naill neu'r llall, mi wnaiff y Cynghorydd / Tiwtor geisio ailgysylltu ar ôl ychydig eiliadau.
    - Os na ellir ailgychwyn y sesiwn, byddwch yn cael e-bost i wneud trefniadau eraill.

### Cyfrinachedd

Drwy ddefnyddio llwyfannau'r brifysgol, rydym wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ein llwyfannau cyfathrebu'n ddiogel, ond ni allwn warantu hynny fel y gallwn wyneb yn wyneb mewn ystafell. Mae Polisi Cyfrinachedd y Gwasanaethau Anabledd i'w weld yma: https://www.bangor.ac.uk/studentservices/disability/confidentiality.php.cy

Gobeithiwn bod hyn wedi rhoi'r holl wybodaeth sydd arnoch ei hangen, a'i bod yn tawelu'ch meddwl. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, e-bostiwch GwasanaethAnabledd@bangor.ac.uk

Wedi'i addasu gyda diolch gan y Gwasanaeth Cwnsela.

Ionawr 2021